

# Astudiaeth Achos

## Newid isadeiledd

Ysgol Gynradd Sili

Penarth, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd



Ffigur 1: Llwybr troed dros dro ar hyd ochr tir yr ysgol.  
©Sustrans

## Cefndir

Yn 2022, yn dilyn trafodaethau rhwng tîm arweinyddiaeth Ysgol Gynradd Sili ac ychydig o rieni, codwyd y syniad o ddatblygu cynllun teithio llesol i'r ysgol i wella diogelwch ac annog mwy o ddisgyblion i gerdded neu reidio sgwter neu feic i'r ysgol.

## Rhwysterau i gerdded a reidio beic neu sgwter

Roedd yr ysgol, sy'n ysgol i boblogaeth amrywiol o ryw 400 o ddisgyblion, yn wynebu sawl her, gan gynnwys yr angen am raciau beics, y traffig prysur ar y ffordd yn ystod oriau brig yr ysgol a fu bron ag arwain at ddamwain ar y daith i'r ysgol yn 2022, yn ogystal â sefyllfa lle roedd cerbydau'n cael eu parcio'n anystyriol.

Un o'r prif faterion diogelwch a amlygwyd yn y Cynllun Teithio Llesol oedd nad oedd llwybr troed diogel ar hyd terfyn tir yr ysgol, a'i bod felly yn annigol i blant gerdded at fynedfa ddeheuol yr ysgol.

## Canlyniadau

Bu'r cydweithio rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol yn allweddol wrth ddatblygu llwybr troed diogel y tu allan i'r ysgol.

Yn dilyn ymweliad â'r safle yn haf 2023, comisiynodd yr awdurdod lleol astudiaeth ddylunio fach i ddrafftio cynllun fyddai'n datrys problem y diffyg llwybr troed.

Yn seiliedig ar y cynllun drafft, cyflwynwyd cais am gyllid adeiladu drwy'r Gronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ym mis Ionawr 2024, a chaniatawyd y cais.

Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ddiwedd haf 2024.

Yn ogystal, rhoddodd y cynllun teithio llesol y dystiolaeth angenrheidiol i berswadio'r awdurdod lleol i gyflenwi 'beiciau cydbwysedd' ychwanegol i'r ysgol, gydag arian o ddyraniad craidd y Gronfa Teithio Llesol.

## Dyfyniad



**“Mae gwir angen am llwybr troed priodol a diogel ger yr ysgol. Mae'n wych gweld yr ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod y daith i'r ysgol yn fwy diogel i'n plant”.**

- Un o rieni Sili



Ffigur 2: Braslun technegol rhagarweiniol ar gyfer y llwybr troed.  
© Cyngor Bro Morgannwg

